



## **Crynodeb Cwricwlwm i Gymru 2022**

### **Ysgol Gynradd Gymunedol Aberporth.**

Mae Cwricwlwm Ysgol Gynradd Aberporth wedi ei lunio ar y cyd gyda rhieni, llywodraethwyr, staff a phlant yr ysgol. Mae wedi ei greu er mwyn sicrhau bod y cwricwlwm a ddarperir yn yr ysgol yn ateb gofynion yr ardal ac yn datblygu ein disgyblion fel dinasyddion gwybodus a chyfrifol o'u hardal leol. Gofynnwyd i bawb nodi beth oedden nhw'n credu oedd yn bwysig er mwyn datblygu dinasyddion llwyddiannus Aberporth a Chymru'r dyfodol. Roedd hyn wedi ei wneud trwy ddefnyddio holiaduron ac mewn trafodaethau agored. Mae datblygu a llunio'r cwricwlwm yn broses barhaus ac mae'r angen i addasu i anghenion y disgyblion yn hanfodol ac mae angen adolygu ei gynnwys yn gyson. Mae hyn yn broses bwysig er mwyn sicrhau bod ein cwricwlwm yn gyfredol ac yn addas i ddisgyblion yr ysgol.

### **Cwrdd gyda gofynion y fframwaith cenedlaethol**

Mae cwricwlwm Ysgol Gynradd Aberporth yn seiliedig ar gynnwys y 4 diben craidd. Mae ein cwricwlwm wedi ei lunio i ddatblygu:

- Dysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes.
- Cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn mewn bywyd a gwaith.
- Dinasyddion egwyddorol, gwybodus sydd yn barod i fod yn ddinasyddion Cymru a'r byd.
- Unigolion iach a hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Mae cwricwlwm Ysgol Aberporth wedi ei lunio er mwyn sicrhau ei fod yn sicrhau mynediad teg a phriodol i bawb gan gymryd i ystyried oed, gallu a diddordebau'r disgyblion. Rydym yn sicrhau ei fod yn eang ei gynnwys ac yn rhoi profiadau i'r disgyblion ddatblygu eu gwybodaeth a sgiliau yn yr holl feysydd dysgu a phrofiad gan gynnwys:

- Mathemateg a Rhifedd
- Ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu
- Y Dyniaethau
- Y Celfyddydau Mynegiannol
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg
- Iechyd a Lles

Rydym yn sicrhau bod sgiliau trawsgwricwlaidd llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol yn treiddio trwy'r holl feysydd dysgu a phrofiadau. Mae'r cwricwlwm yn Ysgol Aberporth wedi rhoi sylw teilwng i ddatganiadau'r hyn sy'n bwysig ac wedi eu hymgorffori yn ein darpariaeth ar lawr y dosbarth.

Mae ein cwricwlwm yn cynnwys darpariaeth briodol i oed a datblygiad disgyblion yn unol â'r Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Rydym yn darparu profiadau a



chyfleoedd i'r disgyblion ddatblygu eu gwybodaeth a sgiliau yn y maes Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ar draws ein holl ddosbarthiadau yn addas i ddatblygiad y plant. Mae'r addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn ogystal â maes Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg bellach yn rhannau gorfodol o'r cwricwlwm ac nid oes dewis gan rieni i hepgor eu plant o'r gwersi bellach.

Mae ein cwricwlwm wedi ei sefydlu ar weledigaeth gytûn sef:

### **Dyro dy law i mi ac fe awn i ben y mynydd'**

**Yn Ysgol Aberporth, ein gweledigaeth yw:-**

**i ddatblygu cymuned Gymreig, gynhwysol sy'n hybu gwerthoedd cryf ac yn adeiladu hyder, lles corfforol a meddyliol pob unigolyn. Dymunwn hybu perthnasoedd iach sy'n parchu hawliau, drwy sicrhau cydraddoldeb a dangos empathi. Anogwn y disgyblion i fod yn ddysgwyr uchelgeisiol a mentrus sy'n gosod safonau uchel i'w hunain wrth gymhwyso eu gwybodaeth a'u sgiliau mewn ffyrdd creadigol. Datblygwn ddysgwyr sy'n gwneud penderfyniadau gwybodus am eu diwylliant, cymuned a chynladwyedd y blaned er mwyn bod yn ddinasyddion cydwybodol o Gymru a'r byd.**

Yn deillio o'n gweledigaeth mae gennym hanfodion penodol i'r cwricwlwm, sydd yn sail i'r holl ddysgu. Rydym yn adnabod ein hanfodion fel y pump pendant:

- Datblygu unigolion cydwybodol
- Datblygu unigolion teg sydd yn uchelgeisiol
- Datblygu unigolion sy'n parchu dwyieithrwydd
- Datblygu unigolion sy'n cydweithio a chyd-dynnu
- Datblygu unigolion sydd gydag ymdeimlad o berthyn

Mae cwricwlwm Ysgol Aberporth wedi ei sefydlu ar system thematig. Mae yna amrywiaeth o themâu yn cael eu hastudio ar draws y flwyddyn bydd yn ateb gweledigaeth a hanfodion dysgu'r ysgol. Mae'r cwricwlwm wedi ei strwythuro fel bod y disgyblion yn derbyn gwersi penodol yn iaith a mathemateg ond yn cael cyfleoedd i ddefnyddio eu sgiliau ar draws yr holl feysydd dysgu a phrofiad.

Mae llais y plentyn yn cael ei gynnwys ym mhob thema fel eu bod yn cael cyfle i arwain eu dysgu. Hefyd, bydd cyfnodau rhydd o fewn yr amserlen i alluogi'r holl blant i ddilyn eu trywyddion dysgu personol yn annibynnol a hefyd yn rhan o grŵp. Mae'r disgyblion hefyd yn arwain gweithredoedd a datblygiadau trwy bwyllgorau llais y plentyn amrywiol:

- Criw y Porth – cyngor plant yr ysgol sydd yn rhoi barn ar amryw weithgareddau
- Llysgenhadon Efydd – disgyblion yn datblygu gweithgareddau corfforol ar gyfer yr holl blant
- Llysgenhadon Gwych – disgyblion yn sicrhau bod hawliau y plant yn cael eu parchu yn yr ysgol
- Dewiniaid Digidol – disgyblion ym mhob dosbarth yn helpu sicrhau bod sgiliau TGCh y disgyblion yn cael eu cynnal a datblygu



Nid yw holl ddysgu y disgyblion yn digwydd o fewn y gwersi. Yn ysgol Aberporth, datblygwn y disgyblion mewn modd holistaidd gan edrych ar gynnydd llawn y plant. Darparwn brofiadau ysgol gyfan i'r disgyblion trwy brosiectau penodol. Datblygwn ddinasyddion egwyddorol a gwybodus trwy brosiectau penodol megis:

- Gweithredu fel ysgol sydd yn parchu hawliau
- Cymryd rhan mewn prosiectau ysgolion iach
- Gweithredu mewn prosiectau eco'sgolion
- Gweithredu ym mhrosiect Cardi Iaith

Datblygwn ddisgyblion iach ac hyderus trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol trwy asiantaeth yr Urdd a thrwy gweithredu sesiynau amser cylch ar draws yr holl ddosbarthiadau. Ym mhob dosbarth mae'r disgyblion yn rhannu eu teimladau yn agored gyda'r staff trwy gofnodi eu teimladau ar y siart emosiynau. Yn Ysgol Aberporth, mae ein gweithredoedd a gweithgareddau yn blaenoriaethu datblygiad lles ac emosiynol yr holl ddisgyblion fel sail cadarn i'w datblygiad holistaidd.

### **Cynnydd ac asesu**

Un o brif elfennau cwricwlwm Ysgol Aberporth yw ei fod yn adeiladol ac yn berthnasol i allu a datblygiad y plant. Er mwyn sicrhau ein bod yn gallu cwrdd yn llawn gydag anghenion y plant, rydym yn eu hasesu wrth iddynt ddechrau er mwyn adnabod eu gallu yn iaith, rhif, sgiliau personol a chorfforol a chymhwysedd digidol.

O'r asesiad cychwynnol hwn, rydym yn cynllunio ffordd ymlaen i'r disgyblion fel eu bod yn gwneud cynnydd yn eu sgiliau a gwybodaeth. Mae'r ysgol yn defnyddio disgrifiadau dysgu er mwyn adnabod ble mae'r plant ac er mwyn adnabod ble mae angen arwain dysgu'r plant.

Mae'r ysgol yn tracio cynnydd disgyblion ar draws yr ysgol er mwyn sicrhau bod pob unigolyn yn gwneud y cynnydd priodol i'w gallu. Mae'r ysgol yn cydnabod na fydd pob plentyn ar yr un man ond gweithredwn i sicrhau bod pob disgybl yn gwneud cynnydd o'u man cychwyn. Er mwyn sicrhau bod y disgyblion yn anelu tuag at safonau uchel, defnyddiwn y disgrifiadau dysgu yn y Cwricwlwm i Gymru a'r fframweithiau sgiliau fel canllawiau wrth arwain y dysgu.

Er mwyn sicrhau bod y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu, mae'r staff yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau asesu ar gyfer dysgu. Yna, mae'r staff yn deall beth yw cryfderau a gwendidau'r disgyblion gan ddefnyddio gwahanol ddulliau ac yn cynllunio dysgu pellach. Mae hyn yn sicrhau bod y plant yn gwneud cynnydd yn eu sgiliau a gwybodaeth.

Rydym yn sicrhau bod y disgyblion yn cymryd rhan weithredol yn y broses o asesu a hybu eu cynnydd personol. Mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd cyson yn ystod eu dysgu i hunan asesu a hefyd i asesu gwaith ei gilydd. O'r sgwrs broffesiynol yma, mae'r disgyblion yn cael cyfle i osod targedau personol a gweithredu er mwyn eu cwrdd. Hefyd, yn wythnosol, mae'r disgyblion yn cael cyfle i adolygu eu dysgu trwy gadw cofnod o'u datblygiad mewn Llyfr Llwyddiant.



Yn flynyddol, defnyddiwn brofion safonol i fesur sgiliau disgyblion blynyddoedd 2 i 6 yn eu sgiliau darllen Cymraeg, darllen Saesneg, sgiliau rhesymu a sgiliau rhifedd. Prif bwrpas y profion yma yw sicrhau bod cryfderau'r plant yn cael eu hadnabod a bod cymorth priodol yn gallu cael ei ddarparu er mwyn helpu'r plant i wneud cynnydd.

### **Anghenion Dysgu Ychwanegol**

Mae sicrhau ecwiti yn ganolog i Gwricwlwm Ysgol Aberporth. Mae'r staff yn monitro cynnydd disgyblion yn ofalus ac os ydyn nhw'n adnabod bod disgybl yn cael anhawster mewn maes penodol neu'n methu gwneud cynnydd, yna mae'r ysgol yn ymchwilio'n bellach mewn i'r rheswm. Hefyd, os oes rhiant yn codi consyrn am ddatblygiad plentyn bydd yr ysgol yn ymchwilio'n bellach er mwyn darganfod os oes anghenion dysgu ychwanegol gan y plentyn. Os yw'r ysgol yn adnabod bod anghenion dysgu ychwanegol gan blentyn, yna bydd y disgybl yn cael ei osod ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol ac yn derbyn Cynllun Datblygu Unigol fel bod gan bawb sy'n cydweithio gyda'r plentyn ddealltwriaeth gyffredin o'r anghenion.

Mae disgyblion yr ysgol yn cael derbyn ymyrraeth penodol i ateb eu hanghenion am 2 dymor cyn bod y penderfyniad terfynol o gynnwys disgybl ar y gofrestr ADY ai peidio.

Wedi adnabod yr anghenion, mae'r ysgol yn darparu yn briodol trwy wahaniaethu llwyddiannus ar lawr y dosbarth neu trwy roi ymyraethau priodol mewn lle sydd yn goresgyn yr heriau sydd yn atal y plentyn rhag gwneud cynnydd.

### **Adolygu'r Cwricwlwm**

Bydd cwricwlwm yr ysgol yn cael ei adolygu yn gyson trwy systemau gwarantu ansawdd yr ysgol. Bydd yr ysgol yn ei addasu yn gyson er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth yn cwrdd yn benodol gydag anghenion y disgyblion a'r gymdeithas ar y pryd.

Mae Ysgol Aberporth yn sefydliad sydd yn dysgu ac wrth i gymuned yr ysgol ddod ar draws ymchwil defnyddiol neu syniadau llwyddiannus, bydd yr ysgol yn addasu er mwyn sicrhau bod y cwricwlwm yn cwrdd yn llawn gydag anghenion y disgyblion yn y modd mwyaf effeithiol.

Bydd y llywodraethwyr a gweddill rhan ddeiliaid yr ysgol yn adolygu'r cwricwlwm yn flynyddol trwy adolygu'r weledigaeth a chynnig syniadau am sut y gellir esblygu ei gynnwys ac addasu'r dulliau dysgu.

Bydd yr ysgol yn rhagweithiol wrth gasglu barn y rhan ddeiliaid trwy holiaduron ac mewn cyfarfodydd. Mae datblygu cwricwlwm yr ysgol yn broses fyw a bydd angen ymateb wrth i'r gymdeithas ddatblygu ac i syniadau hanu oddi wrth y disgyblion.



## **Curriculum for Wales Summary 2022**

### **Ysgol Gynradd Gymunedol Aberporth.**

The Curriculum for Ysgol Aberporth has been created in co-operation with parents, governors, staff and children of the school. It has been designed to ensure the curriculum answers the needs of the local area and develops the children are informed and responsible citizens. All were asked to note what they felt is important to develop successful citizens for Aberporth and Wales for the future. This was done by sharing questionnaires and in open conversations. Creating and developing the curriculum is a continues process and it needs to be flexible in order to respond to the needs of the learners. Frequent revision of the curriculum is essential. This process is essential to ensure the curriculum is current and appropriate for the children's needs.

#### **Meeting the national requirements**

The curriculum of Ysgol Aberporth is based on the 4 core principles. Our curriculum has been created to develop learners who are:

- ambitious, capable learners, ready to learn throughout their lives
- enterprising, creative contributors, ready to play a full part in life and work
- ethical, informed citizens of Wales and the world
- healthy, confident individuals, ready to lead fulfilling lives as valued members of society

The curriculum in Ysgol Aberporth has been created to ensure that all learners have fair and appropriate access considering pupils' age, ability and interests. We ensure that its content is broad and varied providing the learners opportunities to develop their knowledge and skills across all areas of learning and experience including:

- Mathematics and Numeracy
- Language, literacy and communication
- The Humanities
- The expressive arts
- Science and Technology
- Health and Wellbeing

We ensure that the cross curricular skills of literacy, numeracy and digital competency flow through all areas of learning and experience. The curriculum of Ysgol Aberporth reflects the requirements noted in the 'Statements of what matters. These requirements are an essential part of the practice on the classroom floor.

Our curriculum includes appropriate provision for the age and development of the children in line with the Relationships and sexuality education (RSE) Code. We provide experiences and opportunities for the pupils to develop their knowledge and understanding about Religion, values and ethics (RVE) across all our classes appropriate to the children's development. Both relationships and sexuality education



and religion, values and ethics are compulsory aspects of the curriculum and parents no longer have the right to withdraw pupils from these lessons.

Our curriculum has been based on the following agreed vision:

**Give me your hand and we can reach the summit'**

In Ysgol Aberporth, our vision is to: -

develop a Welsh and inclusive environment which promotes strong values and builds on each individual's confidence as well as their mental and physical wellbeing. We aim to promote healthy relationships which respect the rights of every child through equality and empathy. We encourage the pupils to be ambitious and enterprising learners who set themselves high standards as they apply their knowledge and skills creatively. We develop learners who make informed decisions about their culture, community and the sustainability of the planet, in order to become conscientious and informed citizens of Wales and the world.

From our vision we have recognised the essence of our curriculum, which is a foundation of all our learning. We call the essence of our curriculum 'Y Pump Pendant' (The Definite Five):

- Develop conscientious individuals
- Develop fair and ambitious individuals
- Develop individuals who respect bilingualism
- Develop individuals who co-operate and work well as a team
- Develop individuals who have a strong sense of belonging

The curriculum of Ysgol Aberporth has been based on a thematic approach. A variety of themes are studied across the year which answer the ambitions of our vision and the essence of our curriculum. The curriculum has been structured so that pupils receive specific mathematics and language lessons but are provided with opportunities to use these skills across all areas of learning and experience.

The voice of the child is included in all themes so they are given an opportunity to lead the learning. Also, there will be free choice periods within the curriculum to allow pupils to follow their own learning questions independently and as part of a group. Pupils also lead activities and developments within the school through various pupil committees:

- Criw y Porth – school pupil council who give their opinions on various matters
- Bronze Ambassadors – children develop various physical activities for all pupils
- Excellent Ambassadors – pupils ensure that the rights of the child are respected within the school
- Digital champions – pupils in each class help ensure that the pupils' ICT skills are supported and developed



Not all the pupils' learning takes place in the class. In Ysgol Aberporth, we develop the children using a holistic approach by considering the whole child. We provide whole school experiences for the pupils through various projects. We develop informed and ethical citizens through:

- Being a rights respecting school
- Taking part in healthy schools projects
- Taking part in eco-schools projects
- Taking part in the Welsh charter project - Cardi Iait

We develop healthy and confident pupils through various activities with the Urdd movement and through circle time activities across all classes. In every class, children can share their feelings openly with the staff recording their emotions on the class' emotion chart. In Ysgol Aberporth, our activities and actions prioritise the children's wellbeing as a firm foundation for their learning in a holistic manner.

### **Progress and Assessment**

One of the key features of Ysgol Aberporth's curriculum is that it is progressive and relates directly to each child's abilities. In order to ensure we can meet each child's needs fully, we assess the children when they start school in order to recognise their skills and knowledge in literacy, numeracy, personal and physical development and their digital competency.

From the initial assessment, we plan the way forward for the pupils so they make good progress in their skills and knowledge. The school uses the description of learning in the Curriculum for Wales in order to know where the children are on their learning path and to identify the next steps.

The school tracks the progress of each child in order to ensure each child makes progress in their learning appropriate to their ability. The school recognises that not every child will be at the same point on their learning path as their peers. In order to ensure pupils aim towards high standards, we use the Curriculum for Wales Description of Learning and the skills framework as guidance as we develop the children's learning.

In order to ensure good progress, the staff use a variety of assessment for learning techniques. Therefore, the staff have a good understanding of the pupils' strengths and areas for improvement and uses this knowledge to plan further learning. This ensures the children make good progress in the skills and knowledge.

We ensure pupils take an active part in the process of assessment and promote their personal development. The pupils have frequent opportunities during their learning to self-assess and assess each other's work. From this professional chat, the pupils get an opportunity to set their own targets and work to achieve these. Also, weekly, pupils get an opportunity to review their targets by recording their progress in their 'Llyfr Llwyddiant' (Success Story book)

Annually, we use national personalised tests to measure the pupils' skills from year 2 to 6 in Welsh reading, English reading, mathematics procedural skills and reasoning



skills. The main purpose of these tests is to recognise the pupils' strengths and to ensure staff plan appropriately to meet the pupils' needs and ensure they make progress.

### **Additional Learning Needs**

Ensuring equity for all is central to our curriculum. The staff monitor the progress of the pupils closely and if they recognise a pupil is having difficulty making progress, then the school investigates into the difficulties the child may be facing. Also, if a parent notes a concern about the progress of their child, the school investigates the possibility of a child having additional learning needs. If a child is recognised as having additional learning needs, then they are placed on the ALN and will receive an individual development plan. By using this document, all professionals involved with the child will have a shared understanding of his/ her needs and work co-operatively in supporting the pupil to make progress.

Pupils in the school receive specific intervention to answer their educational or emotional needs for 2 terms before a decision is made regarding placing a child on the additional learning needs register.

After recognising an additional learning need, the school respond effectively through differentiating activities in class or by providing appropriate intervention to meet the child's needs. This will aid the children to overcome the challenges that stop them from making progress.

### **Reviewing the Curriculum**

The school's curriculum will be reviewed frequently through the school's quality assurance processes. The school will adjust its provision in order to ensure the needs of the children and local community are being met successfully as required.

Ysgol Aberporth is a learning establishment and as the school community encounter new research and successful teaching techniques, the school will adapt its provision in order to ensure the curriculum meets fully and effectively with the needs of the children.

Governors and other stakeholders of the school will analyse the school's curriculum annually by reviewing the school's vision and suggest ideas of how to evolve its content further and adapt the teaching techniques.

The school will be proactive in collecting the stakeholder's opinions through questionnaires and during meetings. The development of our personalised curriculum is a living process and it will need to be responsive to meet the needs of an ever-changing society and idea will be forthcoming from the pupils.